*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal yn rhithiol **DDYDD LLUN 18 RHAGFYR 2023 dros Zoom** am **14:00** o'r gloch.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2022**

5. **Materion yn Codi**

6. **Pennu Cyllideb 24/25**

7. **Adroddiad Monitro Perfformiad Ch2 23/24**

8. **Rheoli Risg Strategol (Cofrestr Risg)**

9. **Siarter Teithio Iach**

10. **Diwygiad i'r Cyfansoddiad**

11. **Materion Brys**
    Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**

Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Dim.**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mehefin 2023 ym Mhencadlys Tân ac Achub Llanelwy ac yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. Paul Rogers | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal |
| Paul Kay | Rheolwr Ardal |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| George Jones | Atebol – Cyfieithydd |
| Ffion Evans | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |

## 2 DATGANIADAU BUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 19 MEHEFIN 2023

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**
**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd materion yn codi.

Codwyd eitem 11 o'r cyfarfod blaenorol gan gynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân yn y blaen-cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân ac roedden nhw wedi gofyn am ddiweddariad ar bensiynau.

Ymatebodd PSTC McArthur fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi drafftio'r ddeddfwriaeth derfynol i symud pensiynau i'r fformat newydd. Mae GTAGC yn y broses o gyfathrebu ag aelodau unigol a bydd yn llunio Cwestiynau Cyffredin.

## 6. ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS – YMATEB I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

6.1 Cyflwynodd Rheolwr Ardal Jones y papur i'r Aelodau ac eglurodd mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd a gweithgareddau'r adolygiad o'r ddarpariaeth frys. Aeth Rheolwr Ardal Jones ymlaen i fynd drwy'r adroddiad i'r Aelodau a diweddaru'r Aelodau bod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi'i ymestyn tan 30 Medi 2023. Roedd hyn o ganlyniad i fodloni trefniadau llywodraethu cynghorau, yn ogystal â cheisiadau gan y cyhoedd.

6.2 Cafodd yr aelodau wybod bod y grŵp wedi cyfarfod bum gwaith rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mehefin 2023.

6.3 Darparwyd diweddariad cefndirol i'r ymgynghoriad. Mae'r Gwasanaeth wedi ymgysylltu â'r Sefydliad Ymgynghori, sy'n sefydliad

nid-er-elw. Mae'r Sefydliad wedi rhoi cyngor ac arweiniad i ni, gan ein galluogi i ddarparu arfer gorau. Rydym ar y trywydd iawn i ennill sgôr "Da" mewn sicrhau ansawdd. Mae'r Sefydliad Ymgynghori wedi darparu adborth cadarnhaol hyd yn hyn.

6.4 Mae'r Sefydliad Ymgynghori wedi darparu adborth cadarnhaol hyd yn hyn.

6.5 Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r adroddiad ymgynghori drafft yn cael ei gyflwyno i Weithgor Awdurdod Tân yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar 5ed Hydref. Gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod llawn ar 16eg Hydref 2023.

6.6 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Docx ddiweddariad i'r Aelodau fod y cyfarfod Cyhoeddus terfynol wedi'i gynnal yr wythnos ddiwethaf. Mynegodd PST Docx ei diolch i gymunedau lleol am eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad ac i bawb sydd wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiadau.

6.7 **PENDERFYNWYD:**
**i) Nododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad hwn**

## 7. ADRODDIAD SICRWYDD RHYDDID GWYBODAETH

7.1 Cyflwynodd PSTC Millington yr adroddiad i'r Aelodau. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd i'r Panel Gweithredol bod prosesau'r Gwasanaeth ar gyfer ymdrin â cheisiadau am wybodaeth a gyflwynir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhai cadarn ac yn lleihau'r risg o dorri rheolau data sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol.

7.2 Rhoddodd PSTC Millington gefndir yr adroddiad i'r Aelodau a rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt y bu nifer o achosion sylweddol a difrifol o dorri rheolau data gan awdurdodau cyhoeddus yn ddiweddar.

7.3 Aeth PSTC Millington drwy'r prosesau sydd gennym ar waith; a thynnwyd sylw'r Aelodau at y ffaith bod gennym Swyddog Diogelu Data sy'n bwynt cyfeirio cychwynnol. Tynnwyd sylw'r aelodau at bwynt 5 i) hyd at iii) a oedd yn rhoi manylion y broses Rhyddid Gwybodaeth.

7.4 Hysbyswyd yr aelodau bod y Swyddog Diogelu Data yn falch o allu dweud na chafodd unrhyw achosion o dorri rheolau data GTAGC eu hadrodd o ganlyniad i ryddhau data personol yn amhriodol mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth.

7.5 **PENDERFYNWYD:**
**i) Nododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad**

## 8. ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD BLYNYDDOL 22/23

8.1 Cyflwynodd Rheolwr Ardal Jones yr asesiad drafft i'r Aelodau i'w gymeradwyo o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod 2022/23. Mae hyn mewn perthynas â chynnydd tuag at gyflawni ei amcanion Gwella a Llesiant hirdymor, Amcanion Cydraddoldeb tymor canolig; a chydymffurfiaeth â safonau perthnasol y Gymraeg. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai Asesiad Perfformiad 22/23 yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30 Medi.

8.2 Aeth Rheolwr Ardal Jones drwy'r asesiad gyda'r Aelodau a thynnodd eu sylw at bwyntiau 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14 a 15.

8.3 Canmolodd y Cyng. Rob Triggs y gwaith a wnaed gan dimau Archwiliadau Diogel ac Iach yn yr ardal leol ar ôl digwyddiad yn Nhal-y-Bont. Dymunai gyfleu ei longyfarchiadau i bawb.

8.4 Gofynnodd y Cyng. John Ifan Jones beth oedd ystyr "rhai" sgiliau Cymraeg, a pha gamau sydd wedi eu cymryd i wella ar hyn. Cafodd ei gwestiwn ei ateb gan Tracey Williams Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Iaith Gymraeg.

8.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyodd yr Aelodau yr asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2022/23 (yn amodol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os oes angen) i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30 Medi; a**

**ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn gryno syml o brif elfennau'r adroddiad asesu.**

## 9. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CH1 23/24

9.1 Rhoddodd Rheolwr Ardal Kay drosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad Monitro Perfformiad.

9.2 Darparodd Rheolwr Ardal Kay wybodaeth am weithgarwch digwyddiadau a thynnodd sylw'r Aelodau at baragraffau 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10.

9.3 Hysbyswyd yr aelodau bod 4,439 o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cynnal ar draws Gogledd Cymru yn ystod y chwarter hwn.

9.4 Diweddarwyd yr aelodau na fu unrhyw farwolaethau oherwydd tân damweiniol yn chwarter 1.

9.5 Diweddarwyd yr aelodau y bu gostyngiad yn nifer y tanau gwyllt yr aethpwyd atynt.

9.6 Hysbyswyd yr aelodau bod nifer o ymgyrchoedd wedi cael eu cynnal yn ystod chwarter 1 a fu'n llwyddiannus.

9.7 Daeth y Cadeirydd Dylan Rees â pharagraff 11 i sylw'r Aelodau mewn perthynas ag argaeledd pympiau a'r targed yw cael 18 y dydd, ac mae hynny wedi'i gyrraedd. Dywedodd y Cadeirydd nad yw’n dangos yr holl waith caled a’r adleoli sy’n mynd ymlaen y tu ôl i’r llenni bob dydd i gyflawni’r lefel hon o ddarpariaeth frys.

9.8 O dan eitem rhif 12 Absenoldeb Salwch nodwyd bod y data hwn yn eitem newydd. Mae angen i aelodau fod yn ymwybodol o hyn. Hysbyswyd yr Aelodau bod Archwilio Mewnol ar hyn o bryd yn cynnal archwiliad o'r prosesau Absenoldeb Salwch.

9.9 Tynnodd yr Aelodau sylw at ba wariant goramser ychwanegol oedd wedi deillio o absenoldeb salwch mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth frys oedd ei angen. Dywedodd PSTC McArthur nad oedd ganddi’r ffigurau hynny wrth law ond y byddai’n ymchwilio i’r mater.

9.10 Roedd y Cyng. Rob Triggs yn dymuno canmol y gwaith gwych sydd wedi'i wneud gan Lee Parson mewn perthynas â'r prosiect “Biker Down” a gofynnodd a fyddai'n bosibl anfon diolch gan yr Awdurdod Tân. Dywedodd Prif Swyddog Tân Docx y byddai hyn yn bosibl.

9.0 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nododd yr Aelodau gynnwys yr Adroddiad**

**10 MATERION BRYS**

10.1 Nid oedd materion brys i’w codi.

Rhowddwyd diolch i’r Aelodau am eu presenoldeb.

Daeth y cyfarfod i ben am: 14:38.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Gweithgor Craffu ar y Gyllideb** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Panel Gweithredol ynghylch yr asesiad cynllunio ariannol sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25, ac i geisio cymeradwyaeth ar gyfer cadarnhau'r ardoll ddangosol gyda'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer ardoll ariannol 2024/25 i'r awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr 2023, ac i gadarnhau'r ffigurau terfynol erbyn 16 Chwefror 2024. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi craffu ar y broses o gynllunio'r gyllideb, ac mae'r asesiad cynllunio presennol o £49.194m (£44.4m ar gyfer 2023/24) wedi'i gadarnhau.

## ARGYMHELLION

3 Gofynnir i aelodau:

(i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25;
(ii) Nodi'r asesiad cynllunio ariannol presennol, sef gofyniad cyllidebol o £49.194m ar gyfer 2024/25;
(iii) Nodi'r cynnig i wneud rhagor o waith i ganfod ym mhle gellid gwneud arbedion pellach o ran gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn; a
(IV) cymeradwyo anfon ardoll ariannol ddrafft i bob awdurdod lleol cyfansoddol.

**CEFNDIR**

4 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Rhaid cyfleu'r ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 16 Chwefror, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er mwyn bodloni'r amserlenni hyn, bydd y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25 a'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn eu cyfarfod ar 22 Ionawr 2024.

5 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau greu gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.

6 Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth strategol a modelau cyflwyno gwasanaethau, cynhaliwyd Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) gan yr Awdurdod yn ystod 2023. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd asesiad ariannol lefel uchel cychwynnol yn ystod mis Chwefror 2023 a oedd yn amcangyfrif y byddai'r cynnydd yn y gyllideb o flwyddyn i flwyddyn oddeutu £6m (Atodiad 1). Mae hyn yn gynnydd o 13.5%, gyda 5% ohono'n mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol sy'n deillio o'r broses o osod cyllideb 2023/24. Nid yw'r camau a gymerwyd yn ystod y broses o osod cyllideb 2023/24 yn gynaliadwy gan eu bod yn gwneud defnydd parhaus o gronfeydd wrth gefn.

7 Fel rhan o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, cytunodd yr Awdurdod y dylid ymgynghori ar nifer o opsiynau, gan gynnwys dau opsiwn a fyddai'n golygu gwneud newidiadau strwythurol i leihau gwariant cylchol o hyd at £2.4m. O weld canlyniadau'r ymarferiad ymgynghori, cadarnhaodd yr Awdurdod mai Opsiwn 1 yr oedden nhw'n ei ffafrio, dewis sy'n gofyn am gynnydd o £6m yn y gyllideb.

8 Er y bydd y gyllideb derfynol i'w chymeradwyo gan Aelodau yn seiliedig ar ganlyniad terfynol yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, y dybiaeth yn ystod y broses o osod cyllideb oedd mai model darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar gostau Opsiwn 1, neu ar amrywiad sy'n gyfwerth â'i chost, fyddai'r dewis terfynol.

9 Cafodd y broses ei goruchwylio gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant. Gydag aelodau sy'n cynrychioli pob awdurdod lleol, mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ar bedwar achlysur rhwng Hydref a Thachwedd 2023, gyda sesiwn adborth pellach i'r holl Aelodau fel rhan o gyfarfod y Gweithgor ar gyfer yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Brys ar 4 Rhagfyr.

**GWYBODAETH**

10 Sefydlwyd y Gweithgor gan yr Awdurdod ac mae'r holl awdurdod lleol cyfansoddol yn cael eu cynrychioli. Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ar bedwar achlysur, ac wedi ystyried holl feysydd gwariant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) . Roedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar wariant cyflog uniongyrchol, gwariant nad yw'n gyflogau, ariannu cyfalaf, llog a phrydlesau.

11 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb manwl yn unol â'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau a'r amheuon sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

12 Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod mis Chwefror 2023 yn dangos y byddai angen cynnydd o £6m i £50.4m ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, gan gynnwys mynd i'r afael â'r diffyg a ddygwyd ymlaen o 2023/24.

13 Nodwyd mwy o bwysau anochel pan wnaethpwyd y gwaith cychwynnol o gynllunio'r gyllideb mewn manylder, ac maent bellach wedi'u lliniaru gan waith y Gweithgor. Yr asesiad drafft terfynol yw gofyniad cyllidebol o £49.194m, sy'n cynrychioli cynnydd o 10.8% yn yr ardoll ar awdurdodau lleol. Mae dadansoddiad drafft ar gyfer pob awdurdod lleol cyfansoddol i'w weld yn Atodiad 2.

14 Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi arbedion pellach a fyddai'n lleihau'r gofyniad cyllidebol neu yn adnabod pa gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant anghylchol.

15 Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r gostyngiadau o £1.912m a nodwyd gan waith y Gweithgor. Maent yn cynnwys cael gwared ar swyddi, gan gynnwys dwy swydd uwch, yn ogystal â'r cynllun mynediad uniongyrchol arfaethedig. Gwnaethpwyd gostyngiadau pellach o dan benawdau gwariant nad yw'n gyflog ac asesiadau ariannu cyfalaf diwygiedig.

| £'m | 23/24 | Chwe-23 | Hyd-23 | Rhag- 23 | Gostyngiadau drwy Graffu ar y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | 31.826 | 35.312 | 35.729 | 35.209 | -0.520 |
| **Nad yw'n gyflog** | 13.567 | 16.055 | 16.321 | 15.054 | -1.267 |
| **Incwm** | -0.999 | -0.944 | -0.944 | - 1.069 | -0.125 |
| **Cyfanswm** | **44.394** | **50.423** | **51.106** | **49.194** | **-1.912** |
| **% Cynnydd** | | 13.5% | 15.1% | 10.8% | |

16 Mae costau gweithwyr yn gyfrifol am fwy na 70% o wariant net, a drafft y gyllideb ar gyfer 2024/25 yw £35.2m. Mae hyn yn cynnwys £34.2m o gostau cyflogres uniongyrchol sy'n ymwneud â 971 aelod staff, gydag asesiad cynllunio presennol o 4% mewn dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn faes ansicrwydd a risg allweddol, gyda phwysau cost o £0.34m ar gyfer pob cynnydd o 1%. Mae'r asesiad cynllunio hefyd yn tybio pwysau cost net ychwanegol o £0.4m mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr tuag at Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Disgwylir i'r cynnydd gwirioneddol fod oddeutu £0.7m, ac er y rhagwelir y bydd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto.

17 Mae'r dadansoddiad o gostau cyflogres uniongyrchol wedi'i ddarparu isod, gan gadarnhau bod £34.392m yn ymwneud â gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau. Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth i gefnogi'r cynnydd mewn personél dyletswydd ar-alw ac i feithrin gallu ymateb gweithredol a gwydnwch.

| **Dadansoddiad o Gostau Tâl Uniongyrchol** | **2024/25 £'m** |
|---|---|
| Gwasanaethau Ymateb | 29.915 |
| Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.779 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 2.698 |
| **Gofynion y Gyllideb Staffio** | **34.392** |

18 Yr asesiad cyllideb drafft ar gyfer gwariant nad yw'n gyflog yw £15.054m, gan gynnwys £2.8m ar gyfer costau ariannu cyfalaf gan gynnwys llog. Mae'r elfennau nad ydynt yn gyflog sy'n weddill wedi bod yn destun craffu ar draws pob adran er mwyn lleihau gwariant a'i reoli. Mae pwysau chwyddiant sylweddol i'w deimlo mewn nifer o feysydd gwariant, gan gynnwys gweithrediadau technegol, TGCh, y fflyd a chyfleusterau. Mae gwaith pellach yn parhau i gael ei wneud yn y maes hwn er mwyn adnabod cyfleoedd i reoli costau ac i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer eitemau anghylchol.

19 Mae'r asesiad cynllunio presennol yn cynnwys costau ariannu cyfalaf o £2.8m, sy'n cynnwys costau llog o £0.9m ac isafswm darpariaeth refeniw o £1.9m. Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn aros yn agos i'r lefelau presennol drwy'r rhan fwyaf o 2024. Yr asesiad cynllunio ar gyfer benthyciadau yn y dyfodol yw cyfradd llog o 5.25%, yn seiliedig ar gyngor cynghorwyr rheoli trysorlys yr Awdurdod. Mae costau llog yn cynnwys yr angen i ailariannu benthyciadau a fydd yn cyrraedd adeg aeddfedu yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac mae hyn eisoes wedi'i adrodd yn adroddiadau diweddaru Rheoli'r Trysorlys. Mae'r costau ariannu cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r ganolfan hyfforddi wedi cael eu hepgor o'r asesiad gwreiddiol, gan arwain at ostyngiad o £1.1m o gymharu â'r asesiad cynllunio cychwynnol.

**GWAITH PELLACH**

20 Bydd yr asesiad cynllunio ariannol drafft yn cael ei adolygu a'i fireinio eto, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn yr asesiad terfynol sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Bydd hyn yn cynnwys anabod rhagor o gyfleoedd i wneud arbedion yn y gyllideb a chyfleoedd i ariannu gwariant anghylchol posibl gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol nodi gofyniad cyllidebol o £50.4m. Yn dilyn y gwaith cynllunio manwl, mae'r asesiad presennol yn £49.194m |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb gytbwys sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Mae dros 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor materol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nodwyd gan y Prif Swyddog Tân yn cynnwys trafodaethau cyflog parhaus yn ogystal â'r angen i recriwtio rhagor o staff dyletswydd ar alw ac i feithrin gwytnwch corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn y cynigion gosod cyllideb. |
| Risgiau | Mae'r ansicrwydd a'r risgiau allweddol ynghylch cyllideb 2024/25 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2. |

**Atodiad 1**

## Asesiad cynllunio ariannol cychwynnol 2024/25

| £'m | 2023/24 | Diffyg | Dyfarniad Cyflog | Darpariaeth FPS | Chwyddiant a Thwf | Cyfraddau Llog | Canolfan Hyfforddi | 2024/25 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflog** | 31.824 | 1.745 | 1.343 | 0.400 | | | | 35.312 |
| **Nad yw'n gyflog** | 10.384 | 0.200 | | | 0.741 | | | 11.325 |
| **Ariannu Cyfalaf a Llog** | 3.130 | | | | | 0.500 | 1.1 | 4.730 |
| **Incwm** | -0.944 | | | | | | | -0.944 |
| **Ardoll** | **44.394** | **1.945** | **1.343** | **0.400** | **0.741** | **0.500** | **1.100** | **50.423** |

**Atodiad 2**

**Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth bennu cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Mae'r cyllidebau staffio wedi'u creu gan ddefnyddio'r modelau staffio ar gyfer gwireddu Opsiwn 1.<br>• Pan bennwyd y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, nid oedd y dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/34 wedi'u cwblhau. Rhagdybiodd y gyllideb derfynol ffigyrau 5% a 4% ar gyfer 2023/24, ond setlwyd y dyfarniad ar 7% a 5% yn y diwedd. Mae'r costau uwch sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac mae asesiad cynllunio o 4% ar gyfer dyfarniadau cyflog cenedlaethol 2024/25 wedi'i wneud i'r holl staff. | • Nid yw'r dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer 2024/25 wedi'u cytuno, ond ar gyfer pob pwynt canran uwchben yr asesiad cynllunio o 4% mae'r risg ariannol oddeutu £0.34m<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn tybio y bydd lefelau weithgarwch yn arferol. Os bydd llif o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth weithredol yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br>• Cafodd cynllun pensiwn y diffoddwyr tân ei brisio yn ystod 2020 ac mae'r canlyniadau dros dro yn nodi cynnydd sylweddol, gyda phwysau cost posibl o £0.7m. Mae'r asesiad cynllunio presennol yn rhagweld y bydd cymorth ariannol yn cael ei dderbyn er mwyn lliniaru'r cynnydd hwn yn rhannol, er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Mae risg ariannol weddilliol o £0.3m yn bodoli. |

| | | |
|---|---|---|
| Nad Yw'n Gyflog | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau nad ydynt yn gyflog yn cael eu llunio gan ddefnyddio'r modelau cyflwyno gwasanaethau presennol, wedi'u diweddaru yn ôl canlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae'r gofynion ar y gyllideb nad yw'n gyflog wedi'u gwaethygu gan yr effaith chwyddiant sy'n gynhenid o fewn contractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd hanfodol busnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit ymladd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau'r ochr weithredol.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflog. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â rheoli halogion ar gyfer ein diffoddwyr tân gweithredol yn dilyn gwaith cenedlaethol.<br>• Lluniwyd cyllidebau gan ddefnyddio gwybodaeth a barn broffesiynol rheolwyr cyllideb a rhwymedigaethau cytundebol sylfaenol ond, o reidrwydd, maent yn cynnwys llawer iawn o amcangyfrif. Lle gellir meintioli pwysau costau, maent wedi'u nodi a'u cynnwys ar wahân.<br>• Yn ystod 2023/24 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.4m ar gyfer y rhwydwaith cyfathrebu gwasanaethau brys cenedlaethol bresennol (Firelink). Mae pris llawn y contract £1m bellach yn cael ei | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflog ac yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg oherwydd y pwysau parhaus o fewn y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i godi prisiau a materion argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd anwadalrwydd sylweddol nid yw'n bosibl meintioli'r effaith yn llawn.<br>• Mae costau nwy a thrydan wedi bod yn bwysau cost hysbys ers 2022/23 oherwydd pwysau cost byd-eang. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r farchnad yn parhau i fod yn anwadal ac mae hyn yn parhau i fod yn risg ac ansicrwydd hysbys.<br>• Nid oes darpariaeth benodol o fewn y gyllideb ar gyfer lleihau carbon ond mae wedi'i chynnwys o fewn costau nad ydynt yn gyflog. Er enghraifft, mae'r symudiad oddi wrth cerbydau diesel wedi'i gynnwys yng nghostau fflyd yn y dyfodol. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth bennu cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys cynnydd blynyddol ar gyfer chwyddiant. | |
| Cyllid Cyfalaf | • Mae'r gofyniad cyllid cyfalaf ar gyfer 2024/25 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer y ddarpariaeth refeniw isaf ar gyfer asedau presennol yn ogystal ag amcangyfrif o'r taliadau llog o ganlyniad i fenthyca. Dylanwadir ar y costau hyn gan wariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyca ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25, ac effaith cynnydd cyfraddau llog wrth ail-ariannu benthyciadau sy'n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn tybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol yn cael ei wneud ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar adeg gosod cyllideb.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf bellach yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd. Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod wedi ystyried yr achos busnes, felly tybir mai o 2025/2026 ymlaen y bydd y costau cyfalaf hyn yn cael eu hysgwyddo. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ardal risg allweddol o ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd. Bydd modelu ariannol yn cael ei wneud er mwyn asesu pa mor sensitif yw sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod i'r cyfraddau llog presennol, a bydd hyn yn cael ei adrodd fel rhan o'r gwaith o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir y bydd unrhyw waith adeiladu yn dechrau yn ystod 2024/25, efallai y bydd angen gwneud darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl pe bai cymeradwyaeth yn cael ei roi. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth bennu cyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u gosod yn unol â blynyddoedd blaenorol.<br>• Gostyngodd incwm grant Llywodraeth Cymru yn sylweddol yn ystod 2023/24 oherwydd dileu'r Grant Firelink (£0.4m) ac ymgorfforiad y Grant Scape (£1.08m) o fewn y Grant Cynnal Refeniw a delir i awdurdodau lleol.<br>• Mae'r gyllideb ddrafft yn tybio y bydd gweddill cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2023/24. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi y tu hwnt i incwm y grant gan Lywodraeth Cymru, ac na ragwelir cynnydd chwyddiant ar ei gyfer. |

**Atodiad 3**

**Ardoll ariannol ddrafft yn ôl awdurdod lleol**

| **Awdurdod** | **Cyfraniad 2023/24**<br>**£** | **Poblogaeth*** | **Dosraniad**<br>**%** | **Gofynion y Gyllideb**<br>**£** | **Cynnydd**<br>**£** | **Cynnydd**<br>**%** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 4,402,621 | 69,842 | 10.00% | 4,878,683 | 476,062 | 10.8% |
| Cyngor Gwynedd | 7,913,586 | 125,539 | 18% | 8,769,293 | 855,707 | 10.8% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 7,477,749 | 118,625 | 17% | 8,286,328 | 808,579 | 10.8% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6,064,021 | 96,198 | 14% | 6,719,732 | 655,711 | 10.8% |
| Cyngor Sir y Fflint | 9,936,251 | 157,626 | 22% | 11,010,670 | 1,074,419 | 10.8% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 8,599,427 | 136,419 | 19% | 9,529,295 | 929,868 | 10.8% |
| **Cyfanswm** | **44,393,655** | **704,249** | **100%** | **49,194,000** | **4,800,345** | **10.8%** |

Amcangyfrifon poblogaeth yn seiliedig ar ffigurau 23/24 (i'w cwblhau)

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Ebrill – Medi 2023** |

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod hanner cyntaf (Ch1 a Ch2) blwyddyn ariannol 2023/24; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod); a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

## Crynodeb Gweithredol

2 Yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) at 3186 o achosion brys. Mae hyn yn ostyngiad o 7.7% o'i gymharu â'r un cyfnod ym mlwyddyn ariannol 2022/23 (3453).

3 Gostyngodd nifer y tanau damweiniol yn y cartref (TDC) yr aethpwyd atynt ychydig yn ystod y cyfnod adrodd i 160, o gymharu ag 162 yn ystod 2022/23. Fodd bynnag, bu tair marwolaeth ddamweiniol mewn tanau mewn anheddau yn hanner cyntaf 2023/24. Mae'r tri achos yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr adroddiad hwn.

4 Roedd cynnydd hefyd yn nifer yr anafiadau difrifol, o ddau i bump o gymharu â 2022/23. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ddarparu ymyriadau atal tân a mentrau i gefnogi diogelwch tân yng nghartrefi a chymunedau Gogledd Cymru.

5 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad i 13 yn nifer y tanau gwyllt yr aeth cyfanswm cyfunol o 54 o gerbydau atynt am dros 476 o oriau.

6 Mynychwyd 1,512 o alwadau diangen yn ystod y cyfnod adrodd, sef cynnydd o 3.6% o'r hanner cyntaf yn y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn oherwydd cynnydd o 10.9% yn nifer y larymau tân a fynychwyd oherwydd cyfarpar o 836 i 927. Derbyniodd y Gwasanaeth 773 o alwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig (LTA) mewn adeiladau masnachol, aethpwyd at 5 (6.5%) ac ni aethpwyd at 768 (93.7%) yn unol â'n polisi.

7 Mae gan yr Awdurdod bolisi sefydledig sy'n pennu ei bresenoldeb i larymau tân awtomatig. Ni fydd GTAGC yn anfon ymateb brys i larymau tân awtomatig yn canu mewn eiddo nad ydynt yn gartrefi oni bai y derbynnir galwad 999 wrth gefn yn cadarnhau bod tân.

8 Yn ogystal, derbyniwyd 300 o alwadau LTA mewn ysbytai, aethpwyd at 134 (44.7%) ac ni aethpwyd at 166 (55.3%).

9 Bu cynnydd yn nifer y tanau yr aethpwyd atynt yng Ngharchar EF y Berwyn o 8 yn ystod hanner cyntaf 2022/23, i 13 yn ystod hanner cyntaf eleni.

10 Cyrhaeddwyd argaeledd pympiau yn unol â'r targed argaeledd 18 pwmp yn 100% yn ystod y cyfnod adrodd.

## Argymhelliad

11 Argymhellir bod:

i. Yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

## Gwybodaeth

12 **Yr Holl Ddigwyddiadau**
Bu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt, gyda 7.7% yn llai o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Mynychwyd 3,186 o ddigwyddiadau o gymharu â 3,453 yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

13 **Tanau**
Gostyngodd nifer y tanau yr aethpwyd atynt yn ystod y cyfnod adrodd 22.0% i 1,011 o gymharu â 1,296 yn ystod yr un cyfnod yn 2022/23.

14 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**
Gostyngodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau 52.7% (412 i 195) yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Gostyngodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol eilaidd (272 i 130), gyda 'glaswelltir, porfa, tir pori ac ati'. (84 i 34), a 'rhostir neu weundir' (100 i 44) oedd y prif gyfranwyr. Cofnodwyd gostyngiadau hefyd yn 'gwrychoedd' (26 i 18), a 'phrysgwydd coed (yn cynnwys coed sengl nad ydynt yn yr ardd' (25 i 9), er bod cynnydd yn 'Llystyfiant ymyl trac rheilffordd' (Dim i bedwar).

15 **Tanau Gwyllt**
Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad yn nifer y tanau gwyllt yr aethpwyd atynt i 34 o 13 yn yr un cyfnod yn 2022/23, a mynychodd 54 cerbyd o gymharu â 47. Gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn y digwyddiad i 476 awr, o gymharu â 628 awr yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

16 **Prif Danau**

Gostyngodd prif danau 5.0% (462 i 439) o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23 ac roeddent 4.8% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 461. Roedd prif danau damweiniol 2.4% (372 i 363), ac yn 2.9% is na'r cyfartaledd tair blynedd o 374. Gostyngodd nifer y prif danau bwriadol (90 i 76) o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 15.6% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 87.

17 **Tanau Eilaidd**

Gostyngodd tanau eilaidd, a oedd 14.2% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 647, 31.3% (808 i 555), yn bennaf oherwydd gostyngiad o 35.8% mewn tanau eilaidd damweiniol (525 i 337). Cofnodwyd gostyngiadau mewn tanau 'glaswelltir, coetir a chnydau' damweiniol eilaidd (272 i 130) ac 'arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (158 i 116).

Gostyngodd tanau eilaidd bwriadol 23.0% (283 i 218), yn bennaf oherwydd gostyngiad o 52.9% mewn 'glaswelltir, coetir a chnydau' (119 i 56). Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd mewn tanau 'Strwythurau Awyr Agored' (33 i 41).

18 **Tanau Simnai**

Gostyngodd tanau simnai 34.6% o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23 (26 i 17). Mae hyn 54.1% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 37.

19 **Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)**

Mynychodd y Gwasanaeth 1.2% yn llai o TDC (162 i 160) yn ystod hanner cyntaf 2022/23. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad mewn TDC o fewn 'Tŷ – deiliadaeth sengl' (94 i 78). Fodd bynnag, bu cynnydd yn y 'Byngalo – deiliadaeth sengl' (17 i 29), mae TDC yn parhau i fod 14.0% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 186. Gostyngodd TDC mewn 'fflat/maisonette wedi'i adeiladu'n bwrpasol – amlfeddiannaeth' hefyd (37 i 33).

Prif achosion tân yn yr TDC oedd 'coginio – coginio arall', (18 i 21), 'eitemau llosgadwy'n rhy agos i ffynhonnell wres (neu dân)' (21 i 15); 'nam ar offer neu gyfarpar' (8 i 12), a 'trin diofal – oherwydd gwaredu diofal' (7 i 10). Y brif ffynhonnell danio oedd 'offer coginio' a ostyngodd (85 i 78) o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23.

20 **Marwolaethau/Anafiadau mewn TDC**

Bu tair marwolaeth mewn TDC yn ystod hanner cyntaf 2023/24, gyda phob un ohonynt wedi digwydd yn Ch2, o gymharu â dim dros yr un cyfnod yn 2022/23. Bu gostyngiad yn nifer y rhai a anafwyd mewn TDC o 47 i 41, gyda 5 person yn dioddef anafiadau difrifol o gymharu â 2 yn ystod 2022/23.

## 21 Trosolwg o farwolaethau

### Achos 1: Ardal Awdurdod Lleol – Sir y Fflint

Dyn 72 oed oedd yn byw ar ei ben ei hun oedd yr ymadawedig. Fflat hunangynhwysol isel oedd yr eiddo dan sylw.

Amser yr alwad oedd 16:10 ac roedd y peiriant 1af yn bresennol am 16:20. Roedd y system synhwyro tân yn llwyr wifredig, ac roedd y system yn cael ei monitro.

Roedd y digwyddiad yn ymwneud â thân mudlosgi a achoswyd gan sigaréts wedi'u taflu mewn dau leoliad gwahanol.

Yn dilyn y digwyddiad, cynhaliwyd ymgyrch canfod mannau problemus lefel 4 ar 18/07/2023:

- Cwblhawyd 28 Archwiliad Diogel ac Iach
- Dosbarthwyd taflenni i 105 eiddo
- Gosodwyd 1 larwm trwm eu clyw

### Achos 2: Ardal Awdurdod Lleol - Gwynedd

Gwraig 87 oed oedd yn byw ar ei phen ei hun oedd yr ymadawedig. Byngalo ar wahân oedd yr eiddo dan sylw. Nid oedd gan GTAGC unrhyw ymgysylltu blaenorol â'r deiliad. Roedd larymau mwg wedi'u gosod a'u cysylltu â Galw Gofal (cwmni monitro) a ffoniodd GTAGC.

Amser yr alwad oedd 14:24 ac roedd y peiriant cyntaf yn bresennol am 14:43. Roedd y digwyddiad yn ymwneud â llosgwr arogldarth yn dal dillad y clwyfedigion ar dân.

Yn dilyn y digwyddiad, cynhaliwyd ymgyrch canfod mannau problemus lefel 4 ar 06/09/2023:

- Cwblhawyd 66 Archwiliad Diogel ac Iach
- Gosodwyd 27 larwm mwg
- Gosodwyd 1 synhwyrydd CO
- Nodwyd 1 Celciwr

### Achos 3: Ardal Awdurdod Lleol – Conwy

Roedd yr ymadawedig yn ddyn 80 oed a oedd yn byw ar ei ben ei hun. Roedd yr eiddo dan sylw yn breswylfa bâr.

Amser yr alwad oedd 23:04 ac roedd y peiriant 1af yn bresennol am 23:14. Roedd larymau mwg wedi'u gosod a'u cysylltu â Galw Gofal (cwmni monitro) a ffoniodd GTAGC.

Roedd y digwyddiad yn ymwneud â thân datblygedig yn y gegin.

Yn dilyn y digwyddiad, cynhaliwyd ymgyrch canfod mannau problemus lefel 4 ar 29/09/2023:

- Cwblhawyd 110 Archwiliad Diogel ac Iach
- Gosodwyd 65 larwm mwg
- Gosodwyd 27 synhwyrydd CO
- Gosodwyd 7 ymyriad arall

22 **Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)**
Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd (85.6%). Cafwyd cynnydd o 81 i 85 mewn TDC lle'r oedd synhwyrydd mwg/gwres wedi ei osod, wedi gweithio ac wedi rhoi rhybudd.

23 Bu gostyngiad o 21 i 20 yn nifer y digwyddiadau lle'r oedd synhwyrydd mwg wedi'i osod wedi gweithio ond na roddwyd rhybudd.

24 Cafwyd cynnydd yn nifer y TDC lle nad oedd unrhyw synhwyrydd wedi'i osod, o 19 i 23, a lle'r oedd synhwyrydd wedi'i osod ac nad oedd wedi gweithio, roedd nifer y digwyddiadau wedi gostwng i 19 o 32.

25 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Amhreswyl**
Bu cynnydd o 29 i 31 mewn prif danau bwriadol mewn adeiladau amhreswyl, gyda 13 yn digwydd yng Ngharchar y Berwyn.

26 **Galwadau Diangen**
Parhaodd y duedd ar i fyny mewn Galwadau Diangen gyda'r Gwasanaeth yn mynychu 1512 o alwadau diangen – 3.6% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2022/23 (1459), a 13.4% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 1,333. Cynyddodd y rhai a oedd yn deillio o systemau LTA 10.9% (836 i 927) ac roeddent yn cynrychioli 61.3% o'r achosion o alwadau diangen.

27 **Larymau Tân Awtomatig (LTA) Amhreswyl**
Cynyddodd LTA Amhreswyl 11.8% (152 i 170). Prif achosion actifadu mewn LTA amhreswyl oedd 'ddiffygiol' (68 i 89); 'llwch' (9 i 15), a 'cychwyn yn ddamweiniol/ddiofal' (25 i 13).

28 **LTA Preswyl-Arall**
Roedd gostyngiad o 23.2% mewn LTA 'preswyl-arall' (69 i 53), gyda llety 'nyrsys/ meddygon' yn dangos gostyngiad sylweddol (17 i 8). Fodd bynnag, cynyddodd 'cartref preswyl' (6 i 16).

Er mai 'diffygiol' oedd prif achos actifadu mewn 'preswyl arall', a oedd â chynnydd bach (15 i 16), gwelodd 'coginio/llosgi tost' ostyngiad sylweddol o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, gan ostwng (20 i 14).

Nodwyd gostyngiadau hefyd mewn 'llwch' a 'gwrthbwyso'n ddamweiniol/ddiofal' o (saith i bedwar), ac (wyth i ddau) yn y drefn honno.

29 **LTA yn y Cartref**

Parhaodd LTA mewn anheddau ar duedd ar i fyny, gan gynyddu 14.3% (615 i 703), gyda 'fflat/maisonette wedi'i adeiladu'n bwrpasol - amlfeddiannaeth' yn cyfrannu'n bennaf at gyfanswm nifer y digwyddiadau, gan godi (198 i 234), ac yna 'byngalo – deiliadaeth sengl' a gododd (179 i 231).

Cynyddodd ‘ty – deiliadaeth sengl’ (171 i 180), a gwelwyd cynnydd hefyd yn ‘Fflat deulawr/maisonette wedi’i throsi – deiliadaeth luosog’ (23 i 25). Fodd bynnag, cofnodwyd gostyngiadau mewn ‘tai gwarchod hunangynhwysol’, (39 i 26).

O’r 703 o LTA anheddau, ‘coginio/llosgi tost’ oedd prif achos yr actifadu, gan gynyddu (313 i 411). Cofnodwyd ychydig o gynnydd hefyd mewn 'diffygiol (137 i 145), a 'llwch' (17 i 24), ac 'ysmygu (12 i 17) gwelwyd gostyngiadau sylweddol yn 'cychwyn damweiniol/diofal' a 'stêm' (34 i 23 a 18 i 15) yn y drefn honno.

30 **Galwadau Diangen Diffuant**

Bu gostyngiad o 5.9% (594 i 559) yn nifer y galwadau diangen bwriadol, oherwydd gostyngiadau ar draws categorïau amrywiol gyda Glaswelltir, coetir a chnydau yn gweld y gostyngiad mwyaf (77 i 47). Lleihawyd ‘yn yr awyr agored arall (gan gynnwys tir) hefyd (150 i 126), a ‘galwadau diangen – eiddo heb ei ganfod’ (57 i 38). Fodd bynnag, bu cynnydd mewn ‘annedd’ (118 i 236) ac ‘offer a pheiriannau awyr agored’ (9 i 14).

Cynyddodd galwadau diangen ‘annedd’ a wnaed gyda bwriad da 25.5% (118 i 236) mae hyn o ganlyniad i gynnydd mewn ‘tŷ – deiliadaeth sengl’ (74 i 98). Yn ogystal â ‘fflat/maisonette wedi’i adeiladu’n bwrpasol – amlfeddiannaeth’ (70 i 85).

Bu gostyngiad o 16.0% (150 i 126) yn nifer y galwadau diangen ‘awyr agored eraill (gan gynnwys tir)’ bwriad da, mae hyn o ganlyniad i ostyngiadau mewn ‘sbwriel rhydd (gan gynnwys yn yr ardd)’ (139 i 117).

Gostyngodd galwadau ffug ‘glaswelltir, coetir a chnydau’ a wnaed gyda bwriad da o 39.0% (77 i 47) oherwydd gostyngiadau mewn ‘glaswelltir, porfa, tir pori ac ati’ (22 i 11), ac ‘rhostir neu weundir’ o (wyth i ddau).

Cynyddodd galwadau diangen didwyll ar gyfer 'offer a pheiriannau awyr agored'
55.6% (9 i 14), gyda ‘offer/peiriannau awyr agored eraill’ yn cynyddu (tri i saith).

31 **Galwadau Diangen Maleisus**

Gostyngodd nifer y galwadau diangen maleisus o 29 i 26 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

32 **Galwadau Gwasanaeth Arbennig**

Gostyngodd galwadau gwasanaeth arbennig 5.0% o 698 i 663 yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 46.0% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 454. Gellir priodoli hyn i'r newid o ran polisi gyda'r nod o gynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân ac achub yn y gymuned pan fo angen.

33 **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd**

Mynychodd y Gwasanaeth 18.6% yn fwy o wrthdrawiadau ar y ffordd (118 i 140), lle'r oedd 33 (23.6%) yn cynnwys tynnu personau'n rhydd. Lle cafodd y Gwasanaeth ei alw i wneud cerbyd neu safle'n ddiogel, cynyddodd ei bresenoldeb 31.7% (83 i 63).

Er bod y Gwasanaeth yn mynychu mwy o Wrthdrawiadau ar y Ffordd, gostyngodd canran y gwrthdrawiadau ar y ffordd a oedd yn cynnwys rhyddhau neu dynnu'n rhydd pobl (34.7% i 23.6%), sy'n is na'r cyfartaledd tair blynedd o 34.1%.

34 **Galwadau Gwasanaeth Arbennig 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd'**

Gostyngodd Galwadau Gwasanaeth Arbennig 'heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd' 9.8% (580 i 523). Y prif gyfrannwr at y gostyngiad oedd 'achub/rhyddhau pobl arall' a ostyngodd 45.1% (71 i 39).

Cofnodwyd gostyngiadau hefyd o ran 'sicrhau mynediad/allanfa' (58 i 52); 'dim gweithredu (nid galwad diangen)' (26 i 15), a 'rhyddhau o lifft' (53 i 22). Fodd bynnag, roedd cynnydd mewn 'digwyddiadau cymorth anifeiliaid', a welodd gynnydd o 80.0% (25 i 45), yn ogystal â 'Chynorthwyo asiantaethau eraill' (195 i 214) a 'llifogydd', (28 i 35).

35 **Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI)**

Cwblhaodd y Gwasanaeth 9,358 ADI ac roedd 2868 (30.6%) ohonynt yn ADI blaenoriaeth uchel. O'r ADI blaenoriaeth uchel a gwblhawyd, roedd 1547 (53.9%) yn atgyfeiriadau gan asiantaeth bartner.

36 **Perfformiad Gorsafoedd**

Cyflawnwyd argaeledd 18 pwmp wedi'i gynllunio ar bob un o'r 183 diwrnod (100%) hanner cyntaf 2023/24.

37 **Absenoldeb Salwch**

Adroddwyd am gyfanswm o 297 o achosion o absenoldeb oherwydd salwch yn ystod hanner cyntaf 2023/24. Mae hyn yn cyfateb i 5.06% o amser absenoldeb salwch.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n helpu'r Awdurdod i fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n helpu i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n helpu'r Awdurdod i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Adroddiad Monitro Perfformiad**

**Ar gyfer hanner cyntaf**

**Ebrill – Medi 2023**


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i fân-newidiadau.**

# Cynnwys

_Toc153190422
1 Yr Holl Ddigwyddiadau ........ 1
2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant ........ 2
3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant ........ 4
4 Tanau Damweiniol yn y Cartref ........ 5
5 Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol yn y cartref ........ 6
6 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC) ........ 7
7 Galwadau Diangen ........ 9
8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig ........ 10
9 Gwrthdrawiadau Traffig a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau ........ 11
10 Monitro yn erbyn Amcan gwella a llesiant Amcan Un ........ 13
11 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i gynllunio ........ 14
12 Absenoldeb Salwch ........ 15
Geirfa ........ 17

## 1 Yr Holl Ddigwyddiadau

**1.1** Yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, mynychodd y Gwasanaeth 3,186 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef gostyngiad o 7.7% ar yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (3,453).




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch. 4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | **2023-24** | **1,635** | **1,551** | | | **3,186** | ↓ 7.7% | 2,934 | ↑ 8.6% |
| | 2022-23 | 1,575 | 1,878 | | | 3453 | | | |
| Yr holl danau | **2023-24** | **600** | **411** | | | **1011** | ↓ 22.0% | 1,146 | ↓ 11.8% |
| | 2022-23 | 577 | 719 | | | 1296 | | | |
| Yr holl alwadau gwasanaeth arbennig | **2023-24** | **332** | **331** | | | **663** | ↓ 5.0% | 454 | ↑ 46.0% |
| | 2022-23 | 327 | 371 | | | 698 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | **2023-24** | **703** | **809** | | | **1,512** | ↑ 3.6% | 1,334 | ↑ 13.3% |
| | 2022-23 | 671 | 788 | | | 1,459 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

Cyfnod Adrodd: Ebrill– Medi 2023 1


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Mynychwyd cyfanswm o 1,011 o danau; gostyngiad o 22.0% o 1,296 yn 2022/23.

**2.2** **Prif danau** – Bu gostyngiad o 5.0% mewn prif danau (462 i 439) o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol, a oedd 5.0% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 461.

**2.3** **Tanau eilaidd** – Bu gostyngiad o 31.3% mewn tanau eilaidd (808 i 555), a oedd 14.2% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 647.

**2.4** **Tanau simnai** – Gostyngodd nifer y tanau simnai (26 i 17) yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol, a oedd 54.1% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 37.




| | Prif Danau | | | | | Tanau Eilaidd | | | | | Tanau Simdde | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Bwriadol | 109 | 88 | 82 | 90 | 76 | 269 | 174 | 200 | 283 | 218 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Damweiniol | 396 | 353 | 398 | 372 | 363 | 295 | 422 | 337 | 525 | 337 | 38 | 49 | 38 | 26 | 17 |
| Cyfanswm | 505 | 441 | 480 | 462 | 439 | 564 | 596 | 537 | 808 | 555 | 38 | 49 | 38 | 26 | 17 |

| Categori | lwyddyn | Ch. 1 | Ch. 2 | Ch. 3 | Ch. 4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | **2023-24** | **231** | **208** | | | **439** | ↓ 5.0% | 461 | ↓ 5.0% |
| | 2022-23 | 226 | 236 | | | 462 | | | |
| Tanau Eilaidd | **2023-24** | **356** | **199** | | | **555** | ↓ 31.3% | 647 | ↓ 14.2% |
| | 2022-23 | 332 | 476 | | | 808 | | | |
| Tanau simnai | **2023-24** | **13** | **4** | | | **17** | ↓ 34.6% | 37 | ↓ 54.1% |
| | 2022-23 | 19 | 7 | | | 26 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi lleihau digwyddiadau tân yn ystod y chwarter blaenorol**

Bu gostyngiad mewn perthynas â phrif danau a digwyddiadau damweiniol yr aethpwyd atynt sy'n parhau i fod yn is na'r ffigur cyfartalog tair blynedd. Mae tanau damweiniol eilaidd yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd tair blynedd. O ganlyniad i:

- 4,919 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn cael eu cynnal ar draws Gogledd Cymru yn ystod Ch2, y ffigwr cyffredinol presennol yw 9,358 sy'n uwch na'r targed blynyddol.
- Mae rheolwyr partneriaeth yn parhau i feithrin perthynas ag asiantaethau allanol i annog cyfeiriadau o ansawdd uchel megis sgyrsiau cegin myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor, a ffair y glas lle cwblhaodd dros 100 o fyfyrwyr gwisiau diogelwch tân. Fe wnaeth GTAGC wella ei gydweithrediad ag ambiwlans St. Johns, sydd ar hyn o bryd yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r GIG i gludo cleifion i ac o'r ysbyty.
- Rheolwyr partneriaeth yn cynnal hyfforddiant ar gyfer 57 o reolwyr yn y sector gofal cartref.
- Y timau cymunedol yn mynychu digwyddiadau cydweithredol amrywiol cymdeithasau tai dros fisoedd yr haf.
- Timau diogelwch tân yn mynychu diwrnodau agored gorsafoedd tân yn rhoi cyngor diogelwch tân i gymunedau lleol.
- Staff Diogelwch Tân yn mynychu nifer o sioeau amaethyddol cenedlaethol a rhanbarthol yn ymgysylltu â chymunedau lleol yn darparu cyngor diogelwch tân.
- Lansio'r broses ddiwygiedig o ganfod mannau problemus yn dilyn tanau mewn tai.
- Mae timau diogelwch tân bellach yn cynnal cyfarfodydd boreol deirgwaith yr wythnos i drafod digwyddiadau cyfredol ac i neilltuo gweithgaredd ar ôl digwyddiad.
- Penwythnos o weithgarwch aml-asiantaeth (CNC, HGC, CSDd a GTAGC) yn cael ei gynnal ar safleoedd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Penodol (SSSI) a dargedwyd a arweiniodd at ryngweithio sylweddol â'r cyhoedd.
- Grŵp Llywio'r Ymgyrch (CSG) yn parhau i weithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch a negeseuon Tanau Gwyllt ar draws yr holl lwyfannau cyfryngau.

- Mae cynlluniau ymyrraeth cynnau tanau bwriadol yn parhau i gael eu hwyluso'n fewnol a chan PentrePeryglon; 3 FACE (Addysg Ymwybyddiaeth Tân Plant) a ddarperir gan Lleihau Llosgi Bwriadol a'r Tîm, 15 Firesafe a ddarperir gan PentrePeryglon ac un ymyriad oedolyn.


- Ymweliadau addysgol ac ysgolion yn parhau ac ymwelwyd â 35 o ysgolion a rhoddwyd cyngor diogelwch tân i 3,786 o bobl ifanc.

- Phoenix yn cyflwyno pedwar cwrs mewn gorsafoedd tân gyda 42 o gyfranogwyr. Cyflwynwyd dau gwrs yn Llanfairfechan, un yn yr Wyddgrug ac un yn y Waun.

## 3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant

**3.1** Yn ystod hanner cyntaf 2023/24, cychwynnwyd 31 o brif danau yn fwriadol, o gymharu â 29 yn ystod 2022/23.

**3.2** Bu 13 o danau bwriadol yng Ngharchar Berwyn, o gymharu ag wyth dros yr un cyfnod y flwyddyn ariannol flaenorol. O’r tanau hyn a fynychwyd gennym, diffoddodd GTAGC un, a chafodd y 12 arall eu diffodd gan staff y carchar cyn i ni gyrraedd.




| | Adeilad Cartref | | | | | Adeilad Amhreswyl | | | | | Adeilad Preswyl arall | | | | | Cerbyd ('Ffordd', a 'Thrafnidiaeth arall') | | | | | Awyr agored | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Cyfanswm | 383 | 387 | 429 | 380 | 172 | 231 | 176 | 179 | 183 | 99 | 20 | 14 | 20 | 25 | 12 | 282 | 187 | 209 | 211 | 126 | 51 | 40 | 44 | 55 | 30 |
| Bwriadol | 27 | 27 | 29 | 36 | 12 | 111 | 67 | 54 | 48 | 31 | 2 | 4 | 2 | 4 | 4 | 91 | 60 | 47 | 42 | 22 | 17 | 12 | 11 | 13 | 7 |
| Damweiniol | 356 | 360 | 400 | 344 | 160 | 120 | 109 | 125 | 135 | 68 | 18 | 10 | 18 | 21 | 8 | 191 | 127 | 162 | 169 | 104 | 34 | 28 | 33 | 42 | 23 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch. 4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | **2023-24** | **40** | **36** | | | **76** | ↓ 15.6% | 87 | ↓ 12.6% |
| | 2022-23 | 41 | 49 | | | 90 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | **2023-24** | **195** | **168** | | | **363** | ↓ 2.4% | 374 | ↓ 2.9% |
| | 2022-23 | 185 | 187 | | | 372 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4 Tanau Damweiniol yn y Cartref

**4.1** Mynychodd y Gwasanaeth 160 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd; 2 (1.2%) yn llai na'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol (162). Arhosodd TDC yr hanner hwn o'r flwyddyn 14.0% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 186.



| Categori | Blwyddyn | Ch. 1 | Ch. 2 | Ch. 3 | Ch. 4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **91** | **69** | | | **160** | ↓ 1.2% | 186 | ↓ 14.0% |
| | 2022-23 | 81 | 81 | | | 162 | | | |
| *Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd. | | | | | | | | | |

**Camau a gymerwyd i ddeall ein demograffig a'n risg cymunedol ymhellach yn ystod y chwarter blaenorol**

- Mae cytundeb rhannu data wedi'i lofnodi (data dros 65) gyda gwasanaeth digidol y GIG i ganiatáu mynediad i GTAGC i gyfeiriadau pobl dros 65 oed a fydd yn helpu i dargedu gweithgareddau atal a ddarperir gan griwiau gweithredol.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân; a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.

- Parhau i weithio gyda grwpiau celcio rhanbarthol i nodi pobl sydd mewn perygl;

- Cafodd ymgyrchoedd Lleol a Chenedlaethol (Cymru a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC)) eu cefnogi yn unol â'n calendr Grŵp Llywio Ymgyrchoedd ni.

- Fe wnaeth ymgyrchoedd rhagweithiol ar ôl digwyddiadau mawr arwain at atgyfeiriadau ADI a sicrwydd cymunedol yn dilyn digwyddiadau.

## 5 Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol yn y cartref

**5.1** Bu tair marwolaeth TDC yn ystod hanner cyntaf blwyddyn 2023/24, o gymharu â dim yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd pump o anafiadau difrifol, ac 13 mân anafiadau, o gymharu â dau ac 19 yn y drefn honno. Gostyngodd nifer yr archwiliadau rhag ofn (12 i 7), a gostyngodd nifer y bobl yr oedd angen cymorth cyntaf arnynt yn y lleoliad hefyd (14 i 13).


| Difrifoldeb yr Anaf | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliadau Rhagofalus | 9 | 18 | 22 | 12 | 7 |
| Cymorth Cyntaf | 22 | 11 | 22 | 14 | 13 |
| Mân Anafiadau | 12 | 12 | 19 | 19 | 13 |
| Anafiadau Difrifol | 3 | 0 | 3 | 2 | 5 |
| Marwolaethau | 1 | 3 | 3 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 47 | 44 | 69 | 47 | 41 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % % newid Blwyddyn hyd yn hyn (YTD) | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | Newid y cyfnod hyd yn hyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **28** | **13** | | | **41** | ↓ 12.8% | 53 | ↓ 22.6% |
| | 2022-23 | 10 | 37 | | | 47 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref | **2023-24** | **0** | **3** | | | **0** | ↑ 300% | 2 | ↑ 33% |
| | 2022-23 | 0 | 0 | | | 0 | | | |

## 6 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol yn y Cartref (TDC)

**6.1** Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o TDC, er na wnaeth pob un weithredu. Mewn 23 o'r TDC, nid oedd synhwyrydd wedi'i osod.

**6.2** O'r 160 o danau damweiniol yn y cartref, roedd 145 wedi'u cyfyngu i ystafell tarddiad y tân, i'r eitem a daniwyd gyntaf, neu dim ond difrod gwres/mwg oedd yno.



| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg wedi'i osod ac wedi gweithredu a rhoi rhybudd | **2023-24** | **48** | **37** | | | **85** | ↑ 4.9% | 88 | ↓ 3.4% |
| | 2022-23 | 36 | 45 | | | 81 | | | |
| Larwm mwg wedi'i osod, wedi gweithredu ond heb roi rhybudd | **2023-24** | **16** | **4** | | | **20** | ↓ 4.9% | 31 | ↓ 11.4% |
| | 2022-23 | 17 | 4 | | | 21 | | | |
| Larwm mwg heb weithredu | **2023-24** | **17** | **15** | | | **32** | ↓ 22.0% | 42 | ↓ 23.8% |
| | 2022-23 | 22 | 19 | | | 41 | | | |
| Larwm mwg heb ei osod | **2023-24** | **10** | **13** | | | **23** | ↑ 21.1% | 24 | ↓ 4.2% |
| | 2022-23 | 6 | 13 | | | 19 | | | |


*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau drwy gynyddu nifer y bobl sydd â larymau mwg ac addysg diogelwch yn ystod y chwarter blaenorol:**

- Mae 4,919 o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u darparu ar draws Gogledd Cymru yn ystod Ch2, a 9,358 yn yr hanner cyntaf. Rhagwelir y bydd hyn yn rhagori ar y targed blynyddol o 17,500.
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n barhaus gan yr Adran Gyfathrebu i hybu perchnogaeth synwyryddion mwg; Parhau i hyrwyddo profi larymau mwg yn rheolaidd gan ddefnyddio pob platfform cyfryngau.
- Mae adnewyddu a hyrwyddo'r gweithgaredd mannau problemus yn sicrhau bod preswylwyr yn cael cyngor diogelwch tân yn y cartref yn dilyn pob LTA domestig a TDC.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.
- Parhaodd addysgwyr i hybu perchnogaeth a phrofi larymau mwg fel rhan o'r ddarpariaeth ar draws ysgolion Gogledd Cymru.

## 7 Galwadau Diangen

**7.1** Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn cynyddodd nifer y galwadau diangen 3.6% (1,459 i 1,512). Roedd cynnydd o 10.9% mewn LTA (836 i 927). Gostyngodd galwadau diangen a wnaed gyda bwriad da 5.9% (594 i 559).




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid Blwyddyn hyd yn hyn (YTD) | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y galwadau diangen | **2023-24** | **702** | **810** | | | **1,512** | ↑ 3.6% | 1,334 | ↑ 13.3% |
| | 2022-23 | 671 | 788 | | | 1,459 | | | |
| Larymau Tân Awtomatig (LTA) | **2023-24** | **407** | **520** | | | **927** | ↑ 10.9% | 721 | ↑ 28.6% |
| | 2022-23 | 416 | 420 | | | 836 | | | |
| Galwadau diangen diffuant | **2023-24** | **281** | **278** | | | **559** | ↓ 5.9% | 591 | ↓ 5.4% |
| | 2022-23 | 241 | 353 | | | 594 | | | |
| Maleisus | **2023-24** | **14** | **12** | | | **26** | ↓ 10.3% | 22 | ↑ 18.2% |


*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i leihau LTA ysbytai yn ystod y chwarter blaenorol**:

- Mae'r Adran Amddiffyn ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o bob LTA mewn Ysbytai. Bydd y canfyddiadau hyn, unwaith y cânt eu cynhyrchu, yn cael eu rhannu â'r GIG.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Gostyngodd galwadau gwasanaeth arbennig (SSCs) 5.0% (698 i 663), o gymharu â'r un hanner y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd gwrthdrawiadau ar y ffordd 18.6% (118 i 140), tra bu gostyngiad o 9.8% yn nifer y digwyddiadau ‘ac eithrio gwrthdrawiadau ar y ffordd’, (580 i 523). Roedd y cynnydd yn nifer y galwadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt i’w ddisgwyl yn dilyn penderfyniad y Gwasanaeth i gynyddu ei weledededd yn y gymuned.




| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | 235 | 229 | 298 | 580 | 378 |
| GTFf | 111 | 49 | 87 | 118 | 103 |
| Cyfanswm | 346 | 278 | 385 | 698 | 481 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD) | % y newid | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl alwadau gwasanaeth arbennig | **2023-24** | **332** | **331** | | | **663** | ↓ 5.0% | 454 | ↑ 46.0% |
| | 2022-23 | 327 | 371 | | | 698 | | | |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd (RTC) | **2023-24** | **77** | **63** | | | **140** | ↑ 18.6% | 85 | ↑ 64.7% |
| | 2022-23 | 53 | 65 | | | 118 | | | |
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | **2023-24** | **255** | **268** | | | **523** | ↓ 9.8% | 369 | ↑ 34.4% |
| | 2022-23 | 274 | 306 | | | 580 | | | |


*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i leihau Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn ystod y chwarter blaenorol:**

- Adolygir yr holl ddigwyddiadau Ennill Mynediad yn y cyfarfodydd Atal bob tair wythnos i benderfynu a ymgymerwyd â gweithgaredd atal, gydag ymweliadau dilynol priodol yn cael eu gweithredu lle bo'n berthnasol.

## 9 Gwrthdrawiadau Traffig a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau

**9.1** O'r 140 o wrthdrawiadau ffordd yr aethpwyd atynt yn yr hanner cyntaf, roedd 33 (23.6%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i dynnu o leiaf un anafedig yn rhydd o'r cerbyd. Er bod 79 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, cafodd y mwyafrif o'r rhai a anafwyd fân anafiadau.




| | |
|---|---|
| **140** | Cyfanswm y gwrthdrawiadau ar y ffordd yr aethpwyd atynt |
| **79** | o ddigwyddiadau lle cafodd pobl anaf |
| **33** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / eu rhyddhau |

| **Difrifoldeb yr Anaf *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 21 |
| Cymorth Cyntaf | 30 |
| Mân Anafiadau | 57 |
| Anafiadau Difrifol | 29 |
| Marwolaethau | 8 |
| **Anafiadau oherwydd gwrthdrawiad ar y ffordd - caiff y rhain eu cofnodi ar y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân* | |

**Camau a gymerwyd i leihau gwrthdrawiadau ar y ffordd yn ystod y chwarter blaenorol:**


- Parhau i ddarparu pecynnau addysgol Diogelwch Ffyrdd.
- Cyflwynwyd stori Olivia i 80 o fyfyrwyr.
- Cyflwynwyd tair sesiwn o Biker Down i 67 o fynychwyr.
- Opsiynau 30:20, dwy sesiwn yn cael eu darparu ar y cyd â HGC.
- Mae staff y Gwasanaethau Tân ac Achub yn parhau i fynychu grwpiau diogelwch ffyrdd lleol a rhanbarthol.

## 10 Monitro yn erbyn Amcan gwella a llesiant Amcan Un

*Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol yn y cartref a chadw'n ddiogel os ydyn nhw'n digwydd.*

### 10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach


Cwblhaodd y Gwasanaeth 9,358 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod yr hanner cyntaf, gyda 2,532 (27.1%) ohonynt wedi'u cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| | Risg Uchel 2019/20 | Risg Uchel 2020/21 | Risg Uchel 2021/22 | Risg Uchel 2022/23 | Risg Uchel 2023/24 | Risg Canolig 2019/20 | Risg Canolig 2020/21 | Risg Canolig 2021/22 | Risg Canolig 2022/23 | Risg Canolig 2023/24 | Risg Isel 2019/20 | Risg Isel 2020/21 | Risg Isel 2021/22 | Risg Isel 2022/23 | Risg Isel 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddim wedi'i atgyfeirio gan Asiantaeth | 1,288 | 1,417 | 1,234 | 1,374 | 1,321 | 2,444 | 1,030 | 797 | 1,269 | 964 | 2,802 | 1,901 | 1,749 | 3,590 | 4,541 |
| Atgyfeiriwyd gan Asiantaeth | 1,488 | 1,057 | 1,356 | 1,828 | 1,547 | 385 | 217 | 328 | 509 | 249 | 849 | 892 | 507 | 684 | 736 |
| Cyfanswm | 2,776 | 2,474 | 2,590 | 3,202 | 2,868 | 2,829 | 1,247 | 1,125 | 1,778 | 1,213 | 3,651 | 2,793 | 2,256 | 4,274 | 5,277 |

| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch. 4** | **Cyfanswm y cyfnod hyd yma (YTD)** | **% newid Blwydd yn hyd yn hyn (YTD)** | **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **% y newid cyfnod hyd yma / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % yr holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a ddaeth drwy atgyfeiriad gan sefydliad partner | **2023-24** | **30.5%** | **23.9%** | | | **30.5%** | ↓ 13.4% | 33.9% | ↓ 10.0% |
| | 2022-23 | 35.2% | 30.2% | | | 35.2% | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blynedd ariannol flaenorol (yn seiliedig ar y cyfnod adrodd cyfatebol); y newid canrannol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.




**Camau a gymerwyd i wella perfformiad Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y chwarter blaenorol:**

- Mae gostyngiad mewn Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel o'i gymharu â 2022/23 yn cyfateb i ostyngiad yn nifer y Gweithwyr Cymorth Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (2.5 ar ôl y gostyngiad).
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n barhaus gan Gyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo perchnogaeth larymau mwg. Mae GTAGC yn parhau i hyrwyddo profi larymau mwg yn rheolaidd gan ddefnyddio pob platfform cyfryngau.
- Mae adnewyddu a hyrwyddo'r gweithgaredd mannau problemus yn sicrhau bod deiliaid yn cael cyngor diogelwch tân yn y cartref yn dilyn pob LTA domestig a TDC.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.
- Parhaodd addysgwyr i hybu perchnogaeth a phrofi larymau mwg fel rhan o'r ddarpariaeth ar draws ysgolion Gogledd Cymru.

## 11 Argaeledd 18 Pwmp wedi'i gynllunio

11.1 Mae gan GTAGC 44 o orsafoedd tân gyda 54 pwmp ymateb - mae gan 8 gorsaf 2 bwmp, ac mae gan Wrecsam 3. Mae cynllunio ymlaen llaw yn digwydd bob dydd i ddefnyddio adnoddau i sicrhau bod 18 ar gael rhwng 06:00 a 18:00. Gall newidiadau byr rybudd weithiau arwain at ostyngiad na ellir ei unioni ar unwaith.

11.2 Yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, y trothwy o 18 pwmp oedd 183 diwrnod. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r trothwy gael ei ostwng i 18 pwmp, nid oes data i gymharu ar gael.

## 12 Absenoldeb Salwch

12.1 Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i wneud y mwyaf o'u presenoldeb yn y gwaith gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

12.2 Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer 2022, roedd y cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn 3.6% ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus. Mae hyn yn is na'r hyn y mae GTAGC wedi'i adrodd ar gyfer Ch1 a Ch2 (5.06%) ond mae yna heriau allweddol y mae'r holl wasanaethau brys yn eu hwynebu o ran rheoli presenoldeb a chadw gweithwyr mewn gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion emosiynol a chorfforol sy'n unigryw lle mae'n bosibl y bydd yn rhaid i staff gweithredol aros i ffwrdd o'r gwaith yn hirach oherwydd anafiadau corfforol o gymharu â'r rheini mewn rolau anweithredol. Hefyd, mae angen i staff gweithredol fod yn gorfforol heini a bodloni'r safon ffitrwydd genedlaethol i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae yna hefyd effaith gweithlu sy'n heneiddio lle mae pobl yn byw'n hirach ac yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau iechyd sy'n cynnwys cyfnodau o absenoldeb cynyddol.

12.3 Fel y nodwyd yn Ch1, mae'r Gwasanaeth yn cynnig ymyriadau iechyd a lles i gefnogi gweithwyr fel mesur ataliol, yn ystod cyfnod o absenoldeb ac i gynorthwyo gyda dychwelyd i'r gwaith megis y Polisi Rheoli Presenoldeb, Iechyd Galwedigaethol, Ffisiotherapi, Rhaglen Cymorth i Weithwyr (darparwr newydd Vivup o 1 Hydref 2023), a rhaglenni Elusen y Diffoddwyr Tân er enghraifft.

12.4 Mae ffocws ar les gweithwyr a hybu iechyd o fudd i weithwyr a'u cyflogwyr. Gall helpu i atal afiechyd, a chefnogi unigolion i gydbwyso gwaith tra'n lleihau effaith unrhyw symptomau afiechyd, lle bo modd. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu cymorth lles i staff ac yn ogystal â'r ymyriadau uchod mae gennym rwydweithiau cymorth gan gynnwys Hyrwyddwyr Golau Glas, Cefnogwyr Cydweithiwr, Dadbriffwyr Digwyddiadau Critigol, a Rhwydweithiau Staff amrywiol.

12.5 Yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, roedd cyfanswm o 916 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC. Mae absenoldebau oherwydd salwch yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24 yn cyfateb i gyfanswm o 5.06% (5.03% ar gyfer Ch1 a 5.09% ar gyfer Ch2).

12.6 Sylwer, trwy gydol yr adroddiad, ni fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma yn swm o Ch1 a Ch2 a bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws y ddau chwarter.

## Tabl Absenoldebau Salwch

| | Achosion Ch1 | Ch1 % yr Amser a gollwyd | Achosion Ch2 | Ch2 % yr Amser a gollwyd | Achosion Blwyddyn hyd yma | % yr Amser a gollwyd y blwyddyn hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Salwch Hirdymor** | 64 | 4.41% | 62 | 4.08% | 87 | 4.25% |
| **Salwch Tymor Byr** | 89 | 0.62% | 128 | 1.01% | 210 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **153** | **5.02%** | **190** | **5.09%** | **297** | **5.06%** |

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simnai | Tanau mewn adeiladau wedi'u meddiannu yw'r rhain, lle mae'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simnai, hyd yn oed os yw gwres neu ddifrod mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'n cael ei ystyried fel un sydd wedi ei fynychu ac nid oes angen rhoi gwybod amdano. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad sydd ddim yn bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol ac amheus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at dân go iawn neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau Diangen – LTA | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm wedi'i gychwyn yn ddamweiniol neu pan fo larwm yn gweithredu a pherson yn galw'r GTA yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farn', er enghraifft galwad gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyl nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Amhreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, neu garchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyren, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau Gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Rheoli Risgiau Strategol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi diweddariad canol-blwyddyn i'r aelodau o gynnwys cofrestr risgiau strategol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae cynlluniau adrannol ar gyfer 2023/24 wedi'u hadolygu ar gyfer Ch1 a Ch2 gyda phenaethiaid adrannau gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni eu hamcanion ar ôl lliniaru. Mae'r risgiau hyn wedi'u sgorio 1-25 ac maent wedi'u categoreiddio'n Uchel Iawn, Uchel, Canolig ac Isel a'u coladu yn rhestr gyfun o 74 o risgiau adrannol.

3. Mae'r rhan fwyaf o'r risgiau wedi aros yr un fath, fodd bynnag, mae rhai risgiau naill ai wedi cynyddu neu wedi lleihau o fewn adrannau yn ystod yr adolygiadau hyn.

4. Yn dilyn yr adolygiadau hyn, ni chanfuwyd unrhyw Risgiau Uchel Iawn neu Uchel newydd ac nid oes unrhyw risg Uchel Iawn neu Uchel bresennol wedi'i lleihau o fewn y risgiau strategol. Felly, mae'r Gofrestr Risg Strategol yn aros yr un fath.

5. Er mwyn coladu'r Gofrestr Risgiau Strategol, mae'r 74 o risgiau adrannol wedi'u grwpio'n naw thema yn Ffig.1 sy'n adlewyrchu'r sgôr adrannol er mwyn canfod y risg gronnol i'r sefydliad. Y meysydd sy'n peri'r risg uchaf i'r sefydliad yw ymosodiadau seiber, heriau ariannol, effaith newid hinsawdd, recriwtio a chadw digon o staff i gynnal ymateb effeithiol ac effeithlon ac unrhyw darfu ar y systemau TG a ddefnyddir gan bob adran.

## ARGYMHELLION

6. Argymhellir bod:

   i. Yr Aelodau'n nodi'r risgiau strategol a nodwyd sy'n wynebu'r Awdurdod yn dilyn yr adolygiad canol-blwyddyn.

## CEFNDIR

7. Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

8. Mae Cofrestr Risgiau Strategol yr Awdurdod yn rhestru risgiau hysbys a allai o bosib atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae cofnodion y gofrestr yn cael sgoriau risg sy'n cael eu hail-werthuso'n rheolaidd gan y swyddogion i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol a'r effaith a ragwelir o ganlyniad i gynllunio gwrth-fesurau.

9. O dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn derbyn adroddiad cryno ar y risgiau strategol, a hynny o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng yr adegau hynny mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.

10. Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi'r lefelau risg presennol a'r lefelau risg ar gyfer y dyfodol (yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd y gwrth-fesurau a gynlluniwyd wedi cael yr effaith a ddymunwyd).

11. Mae'r lefelau risg yn seiliedig ar werthuso'r tebygolrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd a beth fyddai'r canlyniad petai hynny'n digwydd. Darperir disgrifiadau yn Atodiad 2 er gwybodaeth.

## GWYBODAETH

12. Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu, dileu ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Man lleiaf, gwneir hyn yn ystod y diweddariadau chwarterol i gynlluniau adrannol.

13. Rhoddir crynodeb o gofnodion presennol y gofrestr yn Atodiad 1.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnal y gofrestr a gweithredu i reoli risg yn cynyddu’r tebygolrwydd y bydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni. |
| Y Gyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i flaenoriaethu penderfyniadau ynglŷn â gwariant a fyddai’n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfau sy’n diffinio ei swyddogaethau a’r ffordd y mae’n gweithredu. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Gallai rhyddhau’r gofrestr drwy ddamwain olygu bod yr Awdurdod yn agored i niwed. |

**Atodiad 1**

**Y Gofrestr Risgiau Strategol**

1. Mae cyfanswm o 74 o risgiau wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Adrannol ar gyfer 2023/24 sydd wedi'u coladu yn naw thema sy'n sail ar gyfer nodi eu risg drosfwaol i'r sefydliad:

Risgiau o'r Cynlluniau Adrannol ar gyfer 2023/24 wedi'u grwpio'n Themâu Strategol

| Cyf. y Risg Strategol | Risg | Uchel Iawn 20-25 | Uchel 12-16 | Uchel Canolig 8-10 | Isel Canolig 4-6 | Isel 1-3 | Cyfanswm o gynlluniau adrannol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymosodiad Seiber | 1 | 3 | | | | 4 |
| 2 | Ariannol | | 4 | 12 | 1 | | 17 |
| 3 | Hinsawdd | | 1 | | | | 1 |
| 4 | Cyfreithiol | | | 6 | 1 | | 7 |
| 5 | Enw Da | | | 3 | 1 | | 4 |
| 6 | Ymateb | | | 2 | 6 | | 8 |
| 7 | Adnodd Staffio | | 8 | 11 | 5 | | 24 |
| 8 | Cadwyn Gyflenwi | | | 2 | | | 2 |
| 9 | Systemau TG | | 1 | 2 | 4 | | 7 |
| Cyfanswm | | 1 | 17 | 38 | 18 | | 74 |

2. Mae manylion y Risgiau Uchel Iawn ac Uchel a'u gwrth-fesurau fel a ganlyn:

   i. Dim ond un risg drosfwaol sydd â sgôr Uchel Iawn, ac mae hyn yn ymwneud â seiberddiogelwch. Mae gwaith rhagweithiol yn parhau i leihau'r tebygolrwydd. Gallai hyn ostwng i Uchel pan gyflawnir achrediad Hanfodion Seiber.

| Risg Uchel Iawn | Gwrth-fesurau |
|---|---|
| Ymosodiad seiber ar Wybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg | • Monitro bygythiadau byd-eang yn barhaus ac adolygu amddiffynfeydd seiberddiogelwch<br>• Cynnydd tuag at gyflawni achrediad CE (Hanfodion Seiber) a CE+ (Hanfodion Seiber Plws)<br>• Ymdrechu i ddenu gweithwyr sy'n meddu â'r set sgiliau angenrheidiol i gefnogi cydymffurfio ag arfer gorau<br>• Gwneud gwaith cadw a chynnal ataliol ac adolygu technolegau cydnerth |

Mae'r 17 risg lefel Uchel a ganfuwyd gan yr Adrannau mewn perthynas â chyflawni eu hamcanion wedi'u grwpio o fewn y pedair thema Risg Strategol isod ac maent yn debygol o aros yn Uchel, er gwaethaf y gwrth-fesurau isod.

| Risg Strategol | Gwrth-fesurau |
|---|---|
| Effaith newid hinsawdd, gan gynnwys y galw ar adnoddau a heriau amgylcheddol gydag ystadau a cherbydau. | • Strwythur llywodraethiant ar waith i fonitro ac adrodd<br>• Strategaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar waith |
| Heriau ariannol oherwydd dim digon o arian i ddarparu gwasanaethau craidd neu i gynnal systemau risg-gritigol. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau Pensiynau yn sgil dyfarniadau diweddar ac effaith newidiadau ar ôl dirymu cyfraith yr UE | • Cyllideb eisoes wedi'i dyrannu yn y Rhaglen Gyfalaf gyda'r holl amrywiadau i'w cymeradwyo gan y SPOC<br>• Penodi arweinydd technegol Cymru Gyfan ar gyfer Pensiynau i gefnogi'r Uwch Swyddog Pensiynau â'r gwaith o brosesu'r newidiadau sy'n deillio o'r newid yn y ddeddfwriaeth pensiynau gyda phroses archwilio ar waith<br>• Parhau i gydweithio ar waith partneriaeth gydag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>• Parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, yn enwedig ynghylch cyllid grant.<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.<br>• Monitro newidiadau i gyfraith cyflogaeth a allai effeithio ar bwysau cyllideb cynyddol ar ôl dirymu cyfraith yr UE |
| Recriwtio a chadw digon o staff i gynnal cyflenwi gwasanaethau gyda heriau penodol o ran cynnal gwasanaeth brys mewn ardaloedd gwledig | • Datblygu a gweithredu safonau ymateb gwell, effeithiol ac effeithlon drwy'r Prosiect Adolygu Ymateb Brys.<br>• Recriwtio'n rhagweithiol mewn gorsafoedd gwledig gydag ymdrechion parhaus i recriwtio'r staff cywir yn y lle cywir i ddarparu gwasanaeth ar yr adeg gywir<br>• Blaenoriaethu llwythi gwaith ac uwchsgilio /hyfforddi staff<br>• Mentora a hyfforddi staff lle bo hynny'n bosibl i wella cadernid.<br>• Gweithio i leihau pwyntiau llwyddiant unigol a seilos gwybodaeth gan gynnwys parhau i recriwtio i swyddi gwag.<br>• Adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith cynllunio ar gyfer gweithredu diwydiannol yn 2022/23<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan gwmpasu colli staff ym mhob adran.<br>• Monitro newidiadau i gyfraith cyflogaeth a allai effeithio ar bwysau cyllideb cynyddol ar ôl dirymu cyfraith yr UE |

| | |
|---|---|
| Colli, neu darfu ar systemau TG wedi'u teilwra i adrannau a/neu'r gwasanaeth ehangach | • Gweithio i sicrhau bod contractau newydd gyda chyflenwyr addas er mwyn cynnal systemau a mudo i ddewisiadau amgen<br>• Sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn ddigonol<br>• Sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. |

**Atodiad 2**

## Dadansoddi Risgiau

| TEBYGOLRWYDD | CANLYNIAD: 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |

## Graddfa blaenoriaethau risg

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn – risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel – risg yn sylweddol |
| 8-10 | Uchel canolig – risg yn gymedrol |
| 4-6 | Isel canolig – risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Yr Amgylchedd** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen, Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r papur hwn yn nodi rhwymedigaethau Siarter Teithio Iach Gogledd Cymru ar gyfer Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ogystal â'r ystyriaethau ymarferol o ran eu gweithredu.

## ARGYMHELLIAD

2 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) cymeradwyo cadarnhad Siarter Teithio Iach Gogledd Cymr yn un o gyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol, o dan y telerau canlynol:

- Bod y Prif Swyddog Tân (PST) yn cael ei benodi i lofnodi'r Siarter ar ran yr Awdurdod;
- Bod Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn cael ei benodi'n Bwynt Cyswllt Sengl (SPoC) ar gyfer y cynllun; a
- Bod PSTC Stuart Millington yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam ar gydymffurfiaeth.

## CEFNDIR

3 Yn 2021, lansiwyd strategaeth drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, gan Lywodraeth Cymru. Nod y strategaeth yw newid y ffordd y mae pobl yn teithio, a'u cael i gerdded, i feicio ac i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na theithio mewn ceir preifat. Mae'r strategaeth wedi cael rhagor o gefnogaeth gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

4 Gan fod teithio llesol yn cynnig manteision sylweddol i iechyd y cyhoedd, mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi arwain y gwaith o ddatblygu Siarter Teithio Iach ar gyfer Gogledd Cymru (wedi'i hatodi).

5 Datblygwyd y Siarter mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys y chwe Awdurdod Lleol, Sustrans, Cyfoeth Naturiol Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Mae'r Siarter yn awgrymu ystod o feysydd lle gall sefydliadau weithredu, gan gynnwys arweinyddiaeth a chyfathrebu, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, gweithio ystwyth a cherbydau allyriadau isel.

6 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fydd yn goruchwylio llofnodwyr sector gyhoeddus y rhanbarth.

7 Mae'r 15 ymrwymiad a nodir yn y Siarter yn gweddu'n dda â'n Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030, yn enwedig o ran yr ymrwymiad i annog newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn teithio.

8 Ar gyfer yr ymrwymiadau hynny na cheir polisi ar eu cyfer ar hyn o bryd, mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi cytuno ar ddulliau ymarferol i gydymffurfio ac maent wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

## GWYBODAETH

9 Mae'r ymrwymiadau yn y Siarter sydd eisoes yn cael eu bodloni gan ein polisïau presennol neu rai y bwriadwn eu cyflwyno wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod. Mae Tabl 2 (drosodd) yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiadau hynny nad ydynt eisoes yn cael eu bodloni, neu nad oes bwriad ar hyn o bryd i'w bodloni.

**Tabl 1: Ymrwymiadau'r Siarter sy'n cael eu bodloni gan bolisïau presennol**

| Ymrwymiad Siarter | Polisi Presennol |
|---|---|
| Cytuno ar negeseuon rheolaidd a chyson er mwyn cyfathrebu â'r cyhoedd, â staff ac ag ymwelwyr ynghylch teithio'n iach a lleihau faint o deithiau diangen a wneir, a defnyddio'r negeseuon hynny, gan gynnwys targedu pobl o wahanol gefndiroedd, rhywedd, oedran, galluoedd ac anableddau | Strategaeth Amgylcheddol |
| Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a manteision teithio'n iach ar draws swyddogaethau ehangach, megis: caffael, cynadleddau, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Adolygu ein polisïau costau teithio a'n prosesau cynllunio teithiau ar gyfer staff er mwyn iddynt gyd-fynd â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Cefnogi staff sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn gyfrifol ac yn ystyriol (e.e. gyrru o fewn terfynau cyflymder a pheidio â pharcio mewn lonydd beicio), er mwyn galluogi cerdded a beicio diogel | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |

| Ymrwymiad Siarter | Polisi Presennol |
|---|---|
| Gweld a ellir rhoi gostyngiadau i staff ar wasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru ac â darparwyr trafnidiaeth lleol | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Cynnig y Cynllun Beicio i'r Gwaith i'r holl staff, gan gynnwys e-feiciau | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Asesu a darparu lle hygyrch i storio beiciau yn ddiogel, yn ogystal â chawodydd a loceri ym mhob safle addas | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |
| Darparu opsiynau gweithio hyblyg i staff lle bynnag y bo modd, gan gynnwys gweithio gartref a/neu mewn hybiau, a hyrwyddo diwylliant o weithio ystwyth ar draws safleoedd sector cyhoeddus | Strategaeth Amgylcheddol |
| Adolygu'r angen i gael seilwaith sy'n gwefru cerbydau trydan (EV) ac e-feiciau yn ein safleoedd nawr ac yn y dyfodol | Strategaeth Amgylcheddol |
| Adolygu ein trefniadau fflyd a chaffael (pan fo'n berthnasol) er mwyn cyflwyno cerbydau ag allyriadau isel iawn, gan gynnwys beiciau e-gargo ac e-feiciau lle bo hynny'n briodol | Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (*Drafft*) |

**Tabl 2: Ymrwymiadau'r Siarter nad ydynt yn cael eu bodloni gan bolisïau presennol nac arfaethedig**

| Ymrwymiad Siarter | Gweithred arfaethedig |
|---|---|
| Sefydlu rhwydwaith o bobl i fynd ati'n rhagweithiol i annog teithio cynaliadwy, gan gynnwys staff uwch, rheolwyr a, lle bo'n berthnasol, Aelodau etholedig, i hyrwyddo ac i fodelu ymddygiad teithio llesol a chynaliadwy yn rheolaidd, yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy | Bydd y weithred hon yn cael ei chyflawni gan Weithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd |
| Cydweithio â phartneriaid yn ogystal â darparu arweinyddiaeth a chynllunio strategol o ran teithio iach a chynaliadwy, gan gynnwys seilwaith a gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol | Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i weithio gyda chyfoedion drwy Grŵp Datgarboneiddio Gogledd Cymru |
| Sicrhau ei bod yn hawdd gweld sut i gyrraedd ein prif safle(oedd) ar droed, ar feic ac ar gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, trwy gyfrannu at fap rhyngweithiol er enghraifft | Diweddaru tudalennau gorsafoedd ar wefannau cyhoeddus er mwyn cynnwys yr wybodaeth hon |

| Ymrwymiad Siarter | Gweithred arfaethedig |
|---|---|
| Gwella'r gallu i gael gafael ar feiciau yn y gwaith lle bo hynny'n briodol, e.e. cronfa feiciau, beiciau i'w llogi a beiciau cargo | I'w asesu fesul achos lle bo hynny'n briodol |
| Ystyried a hyrwyddo sesiynau hyfforddiant beicio a chynnal a chadw beiciau lle bo hynny'n briodol | Fideos a deunyddiau addysgol i'w cyhoeddi ar fewnrwyd y gwasanaeth (Hwb Tân) |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Goblygiadau uniongyrchol i gyflawni amcanion gwella a llesiant tymor hir yr Awdurdod |
| **Cyllideb** | Dim goblygiadau cyllidebol hysbys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â deddfwriaeth cynllunio gwelliant, llesiant a'r amgylchedd. |
| **Staffio** | Dim effaith ar lefelau staffio hyd y gwyddys. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Bydd effaith camau penodol ar yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar yr adeg briodol yn eu datblygiad. |
| **Risgiau** | Lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio â'r gyfraith |

**Atodiad a**

## Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru

| Cyfathrebu ac arweinyddiaeth |
|---|
| Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy rhagweithiol, gan gynnwys uwch staff, rheolwyr a lle bo'n berthnasol, aelodau etholedig, sy'n hyrwyddo ac yn modelu ymddygiad teithio llesol a chynaliadwy fel mater o drefn, yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy |
| Cytuno a defnyddio negeseuon cyfathrebu rheolaidd a chyson gyda'r cyhoedd, ymwelwyr a staff ar deithio llesol a lleihau teithio diangen, gan gynnwys targedu pobl o wahanol gefndiroedd, rhyw, oedran, galluoedd ac anableddau |
| Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a buddion teithio iach ar draws swyddogaethau ehangach, megis: caffael, cynadleddau, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau |
| Adolygu ein polisïau treuliau teithio a'n prosesau cynllunio teithiau ar gyfer staff, i gyd-fynd â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy |
| Cydweithio â phartneriaid a darparu arweinyddiaeth a chynllunio strategol ar deithio llesol a chynaliadwy, gan gynnwys seilwaith a gwasanaethau lle bo hynny'n berthnasol |
| Staff cymorth sy'n gyrru cerbydau fflyd i fod yn gyfrifol ac yn ddefnyddwyr ffyrdd ystyriol (e.e. gyrru o fewn terfynau cyflymder a pheidio â pharcio mewn lonydd beicio), er mwyn galluogi cerdded a beicio diogel |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** |
| Archwilio gostyngiadau i staff ar wasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru a chyda darparwyr trafnidiaeth leol |
| **Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus** |
| Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd ar sut i gyrraedd ein prif safle(oedd) drwy gysylltiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft drwy gyfrannu at fap rhyngweithiol |
| **Beicio a cherdded** |
| Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'r holl staff, gan gynnwys e-feiciau |
| Asesu a darparu storfa feiciau, cawodydd a loceri diogel a hygyrch ym mhob safle addas |
| Gwella mynediad i feiciau yn y gwaith lle bo'n briodol, e.e. beiciau cronfa, beiciau llog a beiciau cargo |
| Archwilio a hyrwyddo hyfforddiant beicio a sesiynau cynnal a chadw lle bo hynny'n briodol |
| **Gweithio ystwyth** |
| Darparu opsiynau gweithio hyblyg i staff lle bynnag y bo modd, gan gynnwys gweithio gartref a/neu hwb, a hyrwyddo diwylliant o weithio ystwyth ar draws safleoedd y sector cyhoeddus |
| **Cerbydau allyriadau isel iawn (batri, trydan neu hydrogen)** |
| Adolygu'r angen am seilwaith gwefru cerbydau trydan (EV) ac e-feiciau ar ein safleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol |
| Adolygu ein fflyd a'n trefniadau caffael (lle bo'n berthnasol) ar gyfer cyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn, gan gynnwys e-gargo ac e-feiciau lle bo'n briodol |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc a'r Swyddog Monitro** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens, Clerc a'r Swyddog Monitro (01745 535286)** |
| Pwnc | **Dirprwyo pwerau yn sgil etholiadau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 I gynnwys dirpwyaeth sefydlog o bwerau o fewn y Cyfansoddiad, o ddiwedd cyfnod Aelodau presennol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn eu swyddi hyd at gyfarfod cyntaf yr Awdurdod ar ôl etholiadau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi am wahanol gyfnodau, a hynny'n seiliedig ar ddewisiadau'r cyngor y maen nhw'n ei gynrychioli h.y. mae rhai'n cael eu penodi'n flynyddol, ac eraill am holl dymor y cyngor. Fodd bynnag, bydd cyfnodau pawb yn dod i ben ar ôl yr etholiadau nesaf ym mis Mai 2027, hyd yn oed y cynghorwyr hynny sy'n cael eu hail-ethol. O ganlyniad, bydd cyfnod byr rhwng yr etholiadau a Chyfarfod Blynyddol yr Awdurdod pan na fydd unrhyw swyddogion wedi'u penodi, a bydd angen dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Swyddog Tân (PST) weithredu pan fo angen gwneud penderfyniad yn ddi-oed.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod:

i) holl bwerau'r Awdurdod, ei bwyllgorau a'i swyddogion yn cael eu dirprwyo i'r PST, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Trysorydd, yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin a chyfarfod cyntaf yr Awdurdod wedi hynny;

ii) dim ond os bydd penderfyniad na ellid, yn rhesymol, ei ohirio tan y cyfarfod cyntaf hwnnw y gellid arfer y dirprwyaethau hyn; a

iii) bod y ddirprwyaeth yn cael ei chofnodi yng nghyfansoddiad yr Awdurdod.

## CEFNDIR

4 Caiff aelodau eu penodi i'r Awdurdod gan eu cynghorau cyfansoddol am wahanol gyfnodau. Mae rhai yn cael eu penodi ar gyfer tymor y cyngor yn ei gyfanrwydd, ac eraill yn cael eu penodi'n flynyddol. Ym mhob achos, fodd bynnag, ni all y cyfnod ymestyn y tu hwnt i gyfnod yr Aelod ei hun fel cynghorydd. Felly, bedwar diwrnod ar ôl yr etholiadau cyffredin nesaf ym mis Mai 2027, bydd pob Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod, hyd yn oed os cânt eu hailethol. Os cânt eu hailethol, a'u bod yn awyddus i wasanaethu'r Awdurdod eto, bydd yn rhaid i'w cyngor eu hailbenodi i'r swydd. Golyga hyn, ar ôl pob etholiad, bydd cyfnod byr pan na fydd gan yr Awdurdod gorff o Aelodau ("yr interregnum").

5 Bydd hyd yr interregnum yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae'r cynghorau cyfansoddol yn penodi yn unol ag erthyglau 12 a 13 o'r drefn gyfuno. Ni fydd y penodiadau hyn, o reidrwydd, yn digwydd yng nghyfarfodydd cyntaf y cynghorau newydd, yn enwedig os yw'r penodiadau yn swyddogaethau gweithredol sydd wedi'u dirprwyo i gabinetau.

6 Ni all Aelodau gymryd neu ailymgymryd ag unrhyw swydd â'r Awdurdod oni bai fod yr Awdurdod yn penderfynu hynny yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiadau. Mae hyn yn berthnasol i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, yn ogystal ag aelodau'r Panel Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a'r ddau Aelod Awdurdod sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

7 O ganlyniad, rhwng unrhyw etholiad cyffredin a'r cyfarfod blynyddol, a gynhelir fel arfer ym mis Mehefin, nid oes mecanwaith i alluogi aelodau etholedig i wneud y penderfyniadau y bydden nhw wedi'u gwneud fel arfer. Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi ymdopi â´r interregnum trwy wneud dirprwyaethau dros dro i'r PST cyn pob etholiad. Ond mae perygl y gellid anghofio gwneud dirprwyaeth o'r fath, a byddai hynny yn atal yr Awdurdod rhag gwneud penderfyniadau pwysig. Er mwyn lleihau'r perygl hwnnw, mae'r Awdurdod yn gytûn y dylid sicrhau'r ddirprwyaeth hyn ar sail barhaol, ac o ganlyniad maent wedi'i restru fel gweithred yn eu Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

## GWYBODAETH

### Cyngor

8 Byddai'n ddefnyddiol pe gellid gwneud dirprwyaeth barhaol ar gyfer yr interregnum gan ddefnyddio'r un telerau â'r ddirprwyaeth dros dro arferol. Ni fyddai modd denfyddio'r ddirprwyaeth oni byddai'n amhosibl gohirio penderfyniad nes bydd cynghorwyr wedi'u penodi ôl y cyfarfod blynyddol cyntaf. Byddai'r ddirprwyaeth yn cynnwys yr holl bwerau a roddwyd i Aelodau, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir gan y Panel Gweithredol a'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Bydd y ddirprwyaeth yn galluogi'r Awdurdod i barhau i gyfrannu tuag at ei amcanion llesiant |
| Cyllideb | Dim cost ychwanegol y tu hwnt i'r gyllideb bresennol |
| Cyfreithiol | Bydd yr argymhelliad yn galluogi'r Awdurdod i wneud penderfyniadau cyfreithlon hyd nes y penodir Aelodau newydd |
| Staffio | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim goblygiadau uniongyrchol yn deillio o'r argymhelliad |
| Risgiau | Bydd y ddirprwyaeth yn galluogi'r Awdurdod i reoli unrhyw argyfyngau annisgwyl hyd nes y penodir Aelodau newydd. |